# Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol

# Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Chwefror 2018

# 9.30am Ystafelloedd Seminar 1 a 2 yn y Pierhead

**Yn bresennol:** gweler y rhestr sydd wedi'i hatodi

**Croeso a chyflwyniadau:** Croesawodd Lee Waters AC (Cadeirydd) bobl i'r cyfarfod, gan fynegi ei bleser fod cynifer o grwpiau eirioli lleol yn cael eu cynrychioli ac estynnodd wahoddiad iddynt i holl gyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol yn y dyfodol.

**Trafodaeth ar weithredu'r Ddeddf Teithio Llesol ar lefel leol**

Mewn trafodaeth eang, codwyd y materion canlynol:

**Proses y Map Rhwydwaith Integredig**

- Mae'r Ddeddf wedi rhoi arfau pwysig i grwpiau beicio i weithio gyda nhw, mae gan deithio llesol ei brosesau ei hun erbyn hyn y mae'n rhaid mynd drwyddynt ac mae hyn wedi ei gwneud hi'n haws i'r gwaith o ddarparu seilwaith cerdded a beicio gael ei gymryd o ddifrif.
- Yn gyffredinol, credid bod y Canllawiau Dylunio yn gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at wella ansawdd y seilwaith, ac o ran dangos dulliau arloesol. Fodd bynnag, roedd pryder, gan fod y canllawiau'n anstatudol, ei bod yn rhy hawdd i awdurdodau lleol anwybyddu darpariaethau'r canllawiau. Roedd awgrym fod angen "tref arddangos" ar Gymru lle gellir edrych yn fanwl ar seilwaith teithio llesol cynhwysfawr, o ansawdd uchel, ar waith bob dydd fel model i gymunedau eraill.
- Roedd rhai siaradwyr yn poeni bod prosesau'r Ddeddf wedi defnyddio amser ac adnoddau a fyddai fel arall wedi cael eu defnyddio i sefydlu seilwaith newydd.
- Ychydig o staff sydd ag arbenigedd yn y maes hwn sydd gan lawer o awdurdodau lleol, yn aml dim ond un aelod staff yn yr awdurdod cyfan a hwnnw'n swyddog eithaf isel yn hierarchaeth y cyngor. Fodd bynnag, dylid nodi bod cryn ganmoliaeth i lawer o'r swyddogion unigol. Mynegwyd pryder fod cyn lleied o hyfforddiant wedi cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ar weithredu'r Ddeddf.
- Mae llawer o lwybrau cymudo yn croesi ffiniau awdurdodau lleol. Nid yw'n glir fod cynllunio trawsffiniol effeithiol wedi digwydd.
- Yn aml, roedd y broses yn boddi mewn jargon ac yn ffurfiol iawn. Byddai cwestiynau megis "p'un yw'r rhan waethaf o'r dref i gerdded ynddi" wedi ennyn diddordeb mwy o bobl.
- Ymddengys mai ychydig o dystiolaeth sydd fod awdurdodau lleol yn gweithio ar draws eu hadrannau, gyda'r holl broses yn cael ei ystyried yn gyfrifoldeb yr adran drafnidiaeth yn unig. Mynegwyd pryder arbennig ynghylch diffyg cysylltiad ag addysg ac ysgolion, o ystyried y pwyslais a roddai'r Ddeddf ar gael plant i gerdded a beicio i'r ysgol. Prin yw'r dystiolaeth fod teithio llesol yn ystyriaeth o bwys pan fydd ysgolion newydd yn cael eu hadeiladu.
- Er nad yw'n ofyniad yn y Ddeddf fod strategaeth ategol i gael ei llunio, yn nodi'r mesurau ar wahân i seilwaith y byddai'r cyngor yn ymgymryd â nhw, roedd teimlad fod strategaeth o'r fath yn hanfodol os ydym am wireddu'r newid ymddygiad a ragwelir yn y Ddeddf.
- Teimlad cyffredinol nad oedd llawer o bobl wedi cymryd rhan weithredol yn yr ymgynghoriad a phryder ynghylch pa mor effeithiol y rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r prosesau ymgynghori.
- Roedd yr INMs i fod yn gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y rhwydweithiau gorau posibl ond mae llawer wedi'u cyfyngu i nifer fach o lwybrau newydd. Teimlid yn eang fod hyn yn deillio o'r ffaith nad yw'r cynghorau ond yn mapio seilwaith y maent yn hyderus y byddai ganddynt yr adnoddau i'w cyflawni. Yn groes i fwriad y Ddeddf, roedd llawer o awdurdodau lleol yn ceisio osgoi cynyddu

disgwyliadau.  Pryderon difrifol mewn llywodraeth leol p'un a fydd Llywodraeth Cymru yn barod i ariannu'r rhwydweithiau.

- Mae'r Grŵp Trawsbleidiol wedi cynnal arolwg o'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn ymdrin ag INMs ac unwaith y bydd yr ymatebion wedi dod i law bydd dadansoddiad o'r canlyniadau'n cael ei ddosbarthu.

**Teithio Llesol a'r System Gynllunio**

- Ystyriwyd bod diffyg canllawiau teithio llesol effeithiol yn anfantais fawr o ran cael darpariaeth wedi'i chynnwys mewn datblygiadau newydd mor gynnar â phosibl yn y broses.
- Yn yr un modd, ychydig iawn o gyfeiriadau oedd yng Nghanllawiau Cyflenwi a Chanllawiau Dylunio'r Ddeddf at y system gynllunio gyffredinol.

**Dyletswyddau ar Awdurdodau Priffyrdd**

- Gosododd y Ddeddf nifer o ddyletswyddau ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau priffyrdd o ran yr angen i ystyried teithio llesol wrth adeiladu neu gynnal priffyrdd.  Roedd cryn bryder fod y darpariaethau hyn yn y Ddeddf yn cael eu hanwybyddu neu mai ystyriaeth arwynebol yn unig a gâi ei rhoi iddynt.  Cyfeiriwyd at ffordd osgoi newydd Caernarfon fel enghraifft, a hefyd y methiant i wella'r ddarpariaeth ar gyfer teithwyr llesol pan fydd wyneb newydd yn cael ei roi ar ffordd ac y gellid cynnwys mesurau effeithiol ar gost isel.

**Y Bwrdd Teithio Llesol**

- Trafodwyd effeithiolrwydd y bwrdd.  Teimlwyd ei bod yn hanfodol penodi cadeirydd annibynnol sy'n gyfarwydd iawn â'r maes ac sydd â mynediad at y gweinidog os yw'r bwrdd i chwarae rôl ddefnyddiol.

**Cyllid ar gyfer Teithio Llesol**

- Trafododd y cyfarfod lefel y cyllid sydd ei angen i adeiladu'r seilwaith a nodwyd ar y mapiau rhwydwaith.  Teimlwyd nad oedd targed ymgyrchwyr y cylch blaenorol, £10 y pen o'r boblogaeth, yn ddigonol, yn enwedig gan fod seilwaith i gerddwyr bellach wedi'i gynnwys.  Mae'r Alban yn gwario £ 13.50 y pen; roedd ffigwr cyfredol Cymru o £5m, sydd wedi'i addo ar gyfer prosiectau dylunio rhwydwaith, yn cyfateb i £1.66 y pen, er y deallwyd bod mwy i'w gyhoeddi.
- Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ceisio cyfarfod gyda'r gweinidog i drafod cyllid.
- Awgrymwyd bod angen darparu rhagor o wybodaeth am ffynonellau cyllid eraill sydd ar gael ar gyfer prosiectau teithio llesol, megis cyllid adfywio.
- Mynegwyd pryder ynghylch faint o'r gyllideb teithio llesol sy'n cael ei wario ar ddyluniadau palmentu drud yn hytrach na chanolbwyntio ar seilwaith effeithiol.  Roedd angen rhoi mwy o ystyriaeth i ddulliau arloesol, rhatach o wahanu teithwyr llesol oddi wrth gerbydau modur, megis llestri dal planhigion a ffyn traffig.
- Roedd y cylch cyllido blwyddyn yn broblem fawr o ran delio â phrosiectau datblygu rhwydwaith a ddylai fod yn rhai tymor hir.

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Derbyniwyd y cofnodion ar ôl cywiro gwall yn y rhestr bresenoldeb (gweler isod).

**Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod a daeth â'r cyfarfod i ben.**

**Yn bresennol:**

| **Enw cyntaf** | **Cyfenw** | **Sefydliad** |
|---|---|---|
| Jenny | Rathbone | AC |
| Lee | Waters (Cadeirydd) | AC |
| Ioan | Bellin | (Yn cynrychioli Simon Thomas AC) |
| Meryl | James | (Yn cynrychioli Julie Morgan AC) |
| Craig | Lawton | (Yn cynrychioli Suzy Davies AC) |
| Thomas | Pinder | (Yn cynrychioli David Melding AC) |
| Darren | Price | (Yn cynrychioli Dai Lloyd AC)* |
| Peter | Wong | (Yn cynrychioli Jenny Rathbone AC) |
| Anne | Adams-King | Beicio Cymru |
| Gail | Bodley Scott | Cyngor Sir Caerdydd |
| Roger | Geffen | Cycling UK |
| Nick | Guy | Wheelwrights |
| Ryland | Jones | Sustrans Cymru |
| Richard | Keatinge | Beicio Bangor |
| Hugh | Mackay | Cycling UK Bro Morgannwg |
| Craig | Mitchell | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) |
| Gwenda | Owen | Cardiff Cycle City |
| Matt | Price | Cyngor Sir Caerdydd |
| Chris | Roberts | Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol |
| Phil | Snaith | Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin |
| Jack | Thurston | Grŵp Beicio y Fenni |
| Tom | Wells | Cycling UK Aberteifi |
| Caro | Wild | Cyngor Sir Caerdydd |

Yng nghofnodion y cyfarfod blaenorol, dywedwyd bod Darren Price yn cynrychioli Dai Davies AC. Wrth gwrs, Dai Lloyd AC oedd yr enw cywir. Ymddiheuriadau i'r ddau.